

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED

Cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful ddydd Mawrth, 21 Mawrth 2017 am 2pm.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
A. Jones ac A. Chaplin

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
H. Boggis, (Mrs) A. Crimmings a (Mrs) J. S. Ward

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr. P. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Mr. A. Wilkins – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Corfforaethol a Llywodraethol

Ms. J. Lewis – Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau

Mr. S. Preddy – Cyfrifydd Gwasanaethau Cymuned

Mr. R. De Benedictis – Rheolwr Cyfleusterau Cymunedol

22 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.S. Fox (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Moran (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful).

23 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol mewn materion yn ymwneud â'r agenda.

24 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2016.

ADRODDIAD RHEOLWR GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

25 YSTADEGAU A CHYFLAWNIAD

Yn ei hadroddiad, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau Ystadegau a ffigurau Cyflawniad sy'n ymwneud â gweithrediad yr Amlogfa

ers y cyfarfod diwethaf, i'r Aelodau, ac yn dilyn ystyried yr eitemau hynny, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth.

26 Y NEWYDDION DIWEDDARAF AR LAFAR - RHEOLWR CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Rhoddodd y Rheolwr Cyfleusterau Cymunedol ddiweddariad llafar i'r Aelodau ynglŷn â'r gwaith a wnaed i osod ffwrneisi newydd a'r gwaith adferol ategol yn Amlogfa Llwydcoed.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod nifer o anghysondebau wedi cael eu nodi, yn dilyn arolwg cynhwysfawr o'r system ddraenio bresennol.

O ganlyniad, cychwynwyd rhaglen bresennol o waith a bydd effeithiolrwydd y mesurau hyn yn cael eu hasesu cyn ystyried unrhyw waith pellach. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu o'r gyllideb bresennol ar gyfer yr Amlogfa.

Dywedodd y Rheolwr Cyfleusterau Cymunedol y bydd amrywiaeth o arwyddion cyfeirio yn cael eu codi o amgylch y safle yn y dyfodol agos.

Roedd yn dda gan yr Aelodau nodi eu bod nhw'n fodlon ar y gwaith a wnaed yn Amlogfa Llwydcoed a rhoddon nhw eu diolchiadau i'r Rheolwr Cyfleusterau Cymunedol am reoli'r gwaith parhaus.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** cydnabod y gwaith a wnaed yn Amlogfa Llwydcoed.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

27 ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB AR GYFER 2016-17 AC AMCANGYFRIFON REFENIW DRAFFT AR GYFER 2017-18

Rhoddodd y Cyfrifydd Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad i'r Aelodau a oedd yn rhoi manylion ynglŷn â'r alldro terfynol amcanol ar gyfer 2016-17 a'r amcangyfrifon refeniw drafft ar gyfer 2017-18.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNWYD** –

(1) Nodi sefyllfa monitro cyllideb 2016-17.

(2) Cymeradwyo'r Amcangyfrifon Refeniw drafft ar gyfer 2017-18.

ADRODDIADAU CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT SY'N CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG

28 FFŌEDD A THALIADAU AR GYFER AMLOSGI A FFŌEDD A THALIADAU ATODOL 2017-18

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, yr adroddiad sy'n nodi manylion y ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer 2017/18.

Cynigiwyd cynyddu ffioedd a thaliadau ar gyfer amlosgi, a'r holl ffioedd a thaliadau atodol, o 2.25%. Darparwyd cymhariaeth o'r ffioedd presennol a'r ffioedd arfaethedig.

Nododd yr Aelodau nad oedd hi'n bosibl canfod cynnydd yn ffioedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ar gyfer 2016-17. Serch hynny, ystyriwyd bod y cynnydd a oedd yn cael ei gynnig yn rhesymol, a phe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'n cynnal sefyllfa debyg i awdurdodau lleol eraill.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cynyddu ffioedd a thaliadau amlosgi a ffioedd a thaliadau atodol o 2.25% o 1 Ebrill 2017.

29 SYLWADAU'R CADEIRYDD I GLOI

Cyn dod â'r cyfarfod i ben, hysbysodd y cadeirydd y Pwyllgor mai hwn fyddai cyfarfod olaf Rino De-Benedictis – Rheolwr Cyfleusterau Cymunedol – oherwydd ei ymddeoliad oedd ar ddod. Ar ran y Pwyllgor, rhoddodd y cadeirydd ddiolchiadau i Rino am yr holl gymorth mae ef wedi'i roi i Aelodau etholedig a Swyddogion dros y blynyddoedd y bu'n gweithio, a dymunodd ymddeoliad hir a hapus iddo.

**H. BOGGIS
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm